# Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

**2010 mccc 1**

## RHAN 4 E+W

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

*Cyffredinol*

### 70 Canllawiau E+W

(1) Mae'r adran hon yn cael effaith o ran unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan y Mesur hwn i gyrff y mae'n rhaid iddynt roi sylw i'r canllawiau.

(2) O ran Gweinidogion Cymru—

(a) cânt roi canllawiau i gyrff yn gyffredinol neu i un corff penodol neu i gyrff penodol;

(b) cânt ddyroddi canllawiau gwahanol i gyrff gwahanol neu mewn perthynas â hwy;

(c) rhaid iddynt, cyn iddynt ddyroddi canllawiau, ymgynghori â'r cyrff hynny y mae'n rhaid iddynt roi sylw i'r canllawiau;

(d) rhaid iddynt gyhoeddi'r canllawiau.

**Statws**
Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn cael effaith mwyach.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, Adran 70.